Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Adroddiad Cryno ar yr Arolygiad

## Ysbyty Brenhinol Morgannwg, Ward Derbyn, Ward 21, Ward 22 a'r Uned Gofal Seiciatrig Dwys, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

## Dyddiad yr arolygiad: 20, 21 a 22 Tachwedd 2023

## Dyddiad cyhoeddi: 22 Chwefror 2024



Mae'r ddogfen gryno hon yn rhoi trosolwg o ganlyniad yr arolygiad

ISBN Digidol 978-1-83577-619-3
© Hawlfraint y Goron 2024

Gwelsom dîm o staff ymroddedig a oedd yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'r cleifion.

Gwelsom y staff yn dangos parch wrth ryngweithio â'r cleifion drwy gydol yr arolygiad. Dywedodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod yn cael gofal da.

Gwnaethom anfon llythyr Sicrwydd ar Unwaith, lle rydym yn ysgrifennu at y gwasanaeth yn syth ar ôl ein harolygiad gan gyflwyno ein canfyddiadau, yn ei gwneud yn ofynnol iddo gymryd camau unioni brys mewn perthynas â chyfraddau cydymffurfio gwael ar gyfer hyfforddiant gorfodol.

Roedd cynlluniau gofal y cleifion yn adlewyrchu anghenion a risgiau unigol ac roeddent yn cael eu cynnal i safon uchel.

Roedd protocolau addas ar waith i reoli risgiau, iechyd a diogelwch a phrosesau rheoli heintiau.


Roedd y ddogfennaeth statudol a welsom yn cadarnhau bod y cleifion yn cael eu cadw'n gyfreithlon.

Roedd gwelliannau sylweddol wedi'u gwneud i'r broses o gynllunio trefniadau rhyddhau ers arolygiad diwethaf AGIC a'r adolygiad lleol a nodwyd bod y maes hwn yn enghraifft o arfer da yn ystod yr arolygiad.



Roedd y staff yn gadarnhaol am y cymorth a'r arweinyddiaeth roeddent yn eu cael.

Fodd bynnag, mae angen gwneud rhai gwelliannau mewn perthynas ag amgylchedd yr ysbyty, dewisiadau bwydlen a recriwtio i swyddi gwag.



# Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ar 20, 21 a 22 Tachwedd 2023. Adolygwyd y wardiau ysbyty canlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

- Ward Derbyn – Iechyd Meddwl Oedolion
- Ward 21 – Iechyd Meddwl Oedolion
- Ward 22 – Iechyd Meddwl Oedolion
- Uned Gofal Seiciatrig Dwys – Iechyd Meddwl Oedolion.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau Arolygydd Gofal Iechyd AGIC, pedwar adolygydd cymheiriaid clinigol ac un adolygydd profiad y claf. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o Uwch-arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Mae'r fersiwn gryno hon o'r adroddiad wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd.

Mae adroddiad llawn, sydd wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac sy'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol ar gael ar ein gwefan.

# Ansawdd Profiad y Claf

## Crynodeb Cyffredinol

Gwelsom dîm o staff ymroddedig a oedd yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'r cleifion. Gwelsom aelodau o'r staff ar bob lefel yn dangos parch wrth ryngweithio â'r cleifion drwy gydol yr arolygiad.

Roedd trefniadau cadarn ar waith i deilwra'r cynlluniau gofal a thriniaeth at anghenion a dewisiadau unigol y cleifion. Roedd hyn yn cynnwys tystiolaeth dda o waith amlddisgyblaethol, er mwyn sicrhau bod cynlluniau gofal y cleifion yn gynhwysfawr.

Fel y nodwyd yn ein harolygiadau blaenorol, roedd cymysgedd o ystafelloedd un gwely ac ystafelloedd dau wely ar rai o'r wardiau o hyd. Gall yr ystafelloedd hyn a rennir effeithio ar breifatrwydd ac urddas y cleifion. Hefyd, dywedodd y cleifion wrthym fod angen gwneud gwelliannau mewn perthynas â dewisiadau bwydlen i gleifion sydd â gofynion deietegol penodol.

Dywedodd y cleifion wrthym fod y staff yn yr ysbyty yn rhoi gofal da iddynt.

## Lle gallai'r gwasanaeth wella:

- Dewisiadau bwydlen mwy amrywiol i gleifion sydd â gofynion deietegol penodol
- Cymhwyso polisi dim smygu'r bwrdd iechyd yn fwy cadarn.

## Nodwyd gennym fod y gwasanaeth hwn yn gwneud y canlynol yn dda:

- Gwaith tîm da a staff sy'n llawn cymhelliant
- Roedd y cleifion yn canmol y staff gan ddweud eu bod yn cael eu trin yn dda.

**Dywedodd y cleifion wrthym:**

Gwnaeth y cleifion y sylwadau canlynol:

“Mae'r staff yn dda iawn”.

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Crynodeb Cyffredinol

Gwelsom drefniadau cynllunio gofal rhagorol a oedd yn adlewyrchu meysydd Mesur Cymru. Roedd y cynlluniau gofal yn fanwl iawn, wedi'u teilwra at yr unigolyn ac yn adlewyrchu amrywiaeth eang o waith gan y tîm amlddisgyblaethol. Roedd tystiolaeth glir wedi'i dogfennu hefyd bod y cleifion wedi cael eu cynnwys.

Roedd prosesau ac archwiliadau da ar waith i reoli risgiau, iechyd a diogelwch a threfniadau rheoli heintiau. Roedd hyn yn galluogi'r staff i barhau i ddarparu gofal diogel a chlinigol effeithiol. Fodd bynnag, mae angen gwneud rhai gwelliannau mewn perthynas â dibynadwyedd y systemau larymau personol presennol.

Gwnaethom nodi bod y broses ar gyfer cynllunio trefniadau rhyddhau yn gryfder allweddol, gan fod gwelliannau sylweddol wedi'u gwneud ers gwaith sicrwydd blaenorol AGIC. Roedd hyn yn cynnwys cyfathrebu da rhwng gwasanaethau cleifion mewnol a gwasanaethau cymunedol.

Mae materion plymio a draenio parhaus yn effeithio ar argaeledd cyfleusterau toiledau, cawodydd a baddonau ar y wardiau iechyd meddwl o hyd.

## Lle gallai'r gwasanaeth wella:

- Ailaddurno'r wardiau a'r ardaloedd cymunedol
- Adolygu larymau personol y staff
- Datrys materion plymio a draenio ar bob ward.

## Nodwyd gennym fod y gwasanaeth hwn yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd cynlluniau gofal y cleifion yn cael eu monitro a'u hasesu'n rheolaidd.
- Prosesau diogel ac effeithiol ar gyfer rheoli meddyginiaethau
- Roedd strategaethau cadarn ar waith i helpu i reoli ymddygiad heriol ac i hybu diogelwch a llesiant y cleifion
- Proses gynhwysfawr a manwl ar gyfer cynllunio trefniadau rhyddhau.

**Dywedodd y cleifion wrthym:**

Gwnaeth y cleifion y sylwadau canlynol:

“Mae'r bwyd yn dda iawn a'r staff yn gymwynasgar”

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

## Crynodeb Cyffredinol

Gwelsom fod gwelliannau sylweddol wedi'u gwneud i ymdrin â chanfyddiadau ein harolygiad diwethaf yn 2019, ac adolygiad lleol AGIC yn 2022. Roedd hyn mewn perthynas â chynllunio gofal, gweithgarwch archwilio a'r prosesau ar gyfer cynllunio trefniadau rhyddhau. Roedd hefyd yn gadarnhaol gweld bod y bwrdd iechyd wedi dysgu o ganfyddiadau arolygiadau blaenorol.

Gwelsom dîm o staff cyfeillgar, proffesiynol a charedig a oedd yn dangos ymrwymiad i roi gofal o ansawdd uchel i'r cleifion.

Gwelsom fod trefniadau llywodraethu sefydledig ar waith i oruchwylio materion clinigol a gweithredol. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rolau a'u bod yn fodlon ar drefniadau rheoli'r sefydliad.

Roedd prosesau ar waith i sicrhau bod y lefelau staffio yn bodloni templedi staffio'r ysbyty. Fodd bynnag, roedd yn amlwg bod angen i'r gwasanaeth wneud defnydd helaeth o staff asiantaeth i lenwi shifftiau gwag, a oedd yn rhoi pwysau ychwanegol ar y staff.

Ar adeg ein harolygiad, gwnaethom nodi bod nifer mawr o swyddi gwag parhaol ar gael, a dywedodd rhai aelodau o'r staff wrthym eu bod o'r farn nad oedd digon o staff ar gael i ateb y galw cynyddol gan gleifion ar y wardiau.

Materion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:
Tynnodd AGIC sylw at y diffygion canlynol o ran cyrsiau hyfforddiant gorfodol yr oedd angen i'r bwrdd iechyd gymryd camau gweithredu ar unwaith yn eu cylch. Noder nad yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr a bod manylion llawn wedi'u cynnwys yn yr adroddiad llawn yn Atodiad B:

- Gwella cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol mewn perthynas â Hyfforddiant Cynnal Bywyd Brys, Cynnal Bywyd Sylfaenol, Ymyriadau a Diogelwch Corfforol a Symud a Chodi a Chario.
- Hyrwyddo diogelwch cleifion yn y cyfamser.

## Lle gallai'r gwasanaeth wella:

- Sicrhau bod cyrsiau hyfforddiant gorfodol yn hygyrch ac ar gael a bod y staff yn cael cyfleoedd i fynychu hyfforddiant
- Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu templed staffio presennol yr ysbyty i ystyried a yw'n dal i fodloni'r gofynion o ran gofal cleifion a llesiant staff yn effeithiol
- Rhaid i'r bwrdd iechyd barhau i ganolbwyntio ar recriwtio staff i swyddi parhaol sy'n wag.

## Nodwyd gennym fod y gwasanaeth hwn yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd gwelliannau sylweddol wedi'u gwneud i'r broses ar gyfer cynllunio trefniadau rhyddhau
- Roedd systemau llywodraethu cadarn ac effeithiol ar waith
- Cydweithio da rhwng staff y wardiau a thimau cymunedol.

**Dywedodd y staff wrthym:**

Gwnaeth aelodau o'r staff y sylwadau canlynol:

"Ward dda i weithio arni, mae'r rheolwyr yn gefnogol."

Dywedodd y staff wrthym eu bod o'r farn nad oedd digon o staff i fodloni'r galw cynyddol gan gleifion ar y wardiau.

# Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, cânt eu nodi yn atodiadau'r adroddiad arolygu llawn.

Pan fyddwn yn nodi pryderon sy'n peri risg uniongyrchol i ddiogelwch cleifion, gofynnwn i'r bwrdd iechyd gymryd camau brys. Caiff y pryderon hyn eu hamlinellu yn yr atodiadau ac maent yn amlinellu'r camau a gymerwyd gan y bwrdd iechyd i amddiffyn diogelwch cleifion ac sydd wedi'u cymeradwyo gennym ni. Rydym hefyd yn darparu tabl manwl o welliannau a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle byddwn yn gofyn i'r gwasanaeth ddweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i ymdrin â'r meysydd hyn ac i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau gofal iechyd. Yn ogystal, rydym yn amlinellu pryderon a godwyd ac yn cydnabod y rhai a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad.

Ar yr adeg briodol, bydd AGIC yn gofyn i'r bwrdd iechyd gadarnhau bod camau wedi'u cymryd yn unol ag ymatebion y rheolwyr a ddogfennwyd yn y cynllun gwella. Rydym hefyd yn gofyn i fyrddau iechyd ddarparu tystiolaeth ddogfennol o'r camau a gymerwyd a/neu'r cynnydd a wnaed.

